Offeryn dyheadau

Mae'r offeryn hwn yn helpu'r plentyn neu'r person ifanc i adnabod y nodweddion sydd ganddo y mae eraill yn eu gwerthfawrogi a'u hedmygu ac mae'n annog y plentyn neu'r person ifanc i ddatblygu'r cryfderau hyn.

Cynllun gweithredu (camau cyntaf):	Deilliannau (ymhen blwyddyn):
• Gofyn i Jo, yr artist lleol, os galla i ailymuno â'r clwb celf. • Sefyll fy arholiad piano Gradd 2 ym mis Gorffennaf. • Gwneud ychydig o bobi gartref.	• Ymuno â'r clwb celf eto. • Dechrau gwersi canu. • Dewis y cwrs sy'n addas i mi. • Parhau i gwblhau graddau piano.

Pa fath o berson ydw i eisiau bod yn y dyfodol?	Beth ydw i eisiau ei wneud yn y dyfodol?
• Caredig. • Gofalgar. • Artistig. • Cerddorol. • Cryf.	• Peintio a thynnu lluniau. • Canu mewn grŵp. • Coginio. • Mynd i brifysgol neu goleg. • Bod yn berchen ar geffyl.

Beth mae pobl yn ei hoffi a'i edmygu amdanaf i: fy sgiliau, doniau a thalentau

- Caredig, ffrind da, galluog, cryf, creadigol, doniol, gallu dibynnu arni, ymroddedig a phenderfynol.
- Canu'r piano yn wych, gallu ysgrifennu storïau, artist, mathemategydd, cantores, dawnswraig.

Beth sy'n bwysig i mi:

- Cael cyfle i fod yn greadigol, cymryd risgiau ac arbrofi.
- Treulio amser gyda fy ffrindiau a theulu.
- Cael cyfle i ysgrifennu a darlunio bob dydd.
- Gwrando ar gerddoriaeth neu greu cerddoriaeth ar y piano bob dydd.
- Bod oedolion yn dangos eu bod yn ymddiried ynof trwy roi gwaith a chyfrifoldebau i mi.